**PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC(2) 01-04(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Ionawr 2004 |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgor 3 & 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, |
| | Bae Caerdydd |

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | **Yn bresennol** |
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro |
| Denise Idris-Jones | Conwy |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe (dim eitemau 4 & 5) |
| Carl Sargeant | Alyn a Glannau Dyfrdwy |
| **Tystion** | |
| Syr Jon Shortridge (eitem 2) | Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifo, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| David Richards (eitem 2) | Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Brendon Hilbourne (eitem 2) | Pennaeth Uned Sector Preifat, Cyfarwyddiaeth Tai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Ann Lloyd (eitem 3) | Cyfarwyddwraig, Cyfarwyddiaeth GIG, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Allan Coffey (eitem 3) | Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy |
| Andy Williams (eitem 3) | Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Powys |
| **Swyddogion** | |
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol dros Gymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol dros Gymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Mike Usher | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ceri Thomas | Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Adrian Crompton | Clerc Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi wedi bod yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Taf-Elai ac yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Tai yn ystod y cyfnod a nodir yn Astudiaeth Achos C yn yr adroddiad, *Adnewyddu Tai Sector Preifat yng Nghymru*. Nododd nad oedd hi na'i gwr erioed wedi gwneud cais am grant adnewyddu o unrhyw fath.

**Item 2: Adnewyddu Tai Sector Preifat yng Nghymru**

Papur: AC(2) 01-04(p1)

2.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, David Richards, Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Brendon Hilbourne, Pennaeth yr Uned Sector Preifat , Cyfarwyddiaeth Tai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ymwneud â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru ar 'Adnewyddu Tai Sector Preifat yng Nghymru'

2.2 Bydd trawsgrifiad verbatim wedi ei gynnwys yn Atodiad 1 i'r cofnodion hyn.

**Gweithredu**

Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ddarparu'r canlynol :

- Nodyn ar y nifer o bobl sydd yn gallu aros yn ei cartrefi eu hunain o ganlyniad i dderbyn grantiau adnoddau anabl.
- Nodyn yn cymharu cyfrannedd y cwynion a dderbynnir gan yr Ombudsman ynglyn â grantiau tai gyda'r gyfrannedd a welir mewn categorïau eraill o gwynion.

***Cymerodd y pwyllgor egwyl o 11:01 hyd 11:16.***

**Eitem 3: Archwiliad pellach o faterion yn codi o wneud i ffwrdd ag Ysbyty**

**Canolbarth Cymru**

Papur: AC(2) 01-04(p2)

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ann Lloyd, Cyfarwyddwraig GIG Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru,Directorate in the National Assembly, Allan Coffey, Prif Weithredwr Bwrdd

Iechyd Lleol Sir Fynwy ac Andy Williams, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Powys, yn ymwneud â'r Memorandwm gan yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru, 'Archwiliad pellach o faterion yn codi o wneud i ffwrdd ag Ysbyty Canolbarth Cymru'.

3.2 Bydd trawsgrifiad verbatim wedi ei gynnwys yn Atodiad 2 i'r cofnodion hyn.

**Gweithredu**

Addawodd Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth GIG ddarparu'r canlynol :

- Nodyn ar y camau yr oedd Cyfarwyddwr y GIG yng Nghymru yn eu cymryd i wella rheolaeth stâd y GIG yng Nghymru. Directorate

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** AC(2) 05-03(min)

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod cynt fel rhai cywir.

**Eitem 5: SESIWN BREIFAT –'Digolledu Ffermwyr yng Nghymru yn sgïl Tiwberciwlosis mewn Gwartheg' sef adroddiad drafft y Pwyllgor Archwilio**

**Papur:** AC(2) 01-04(p3)

5.1 Penderfynodd y Pwyllgor gau allan y cyhoedd am weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi).

5.2 Trafodwyd yr adroddiad drafft gan y Pwyllgor a chymeradwywyd ef

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Ionawr 2004**